
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Adroddiad ar gyfer 2023-2025 a'r Cynllun ar gyfer 2026-2028

Rhagfyr 2025



Mae'r adroddiad hwn ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2025. Fe'i paratowyd dan adran 6(7) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan ystyried canllawiau adrodd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Hefyd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon mae ein blaengynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2028, a baratowyd dan adran 6(6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Gan bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn endidau cyfreithiol ar wahân, a chanddynt ill dau eu priod swyddogaethau eu hunain ac sydd ill dau wedi'u cwmpasu gan y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, mae'n ofynnol i'r naill a'r llall gynhyrchu Cynllun ac Adroddiad cysylltiedig. Fodd bynnag, gan ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn yr un sefydliad, rydym wedi cytuno i ddod â'n hamcanion ynghyd mewn cynllun ar y cyd ac i baratoi adroddiad ar y cyd ar ein cynnydd.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

**Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon**

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Cyflwyniad a'r cyd-destun | 6 |
| Cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion | 8 |
| Ffocws ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol | 15 |

# Rhagair

## Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer 2023-2025 a'n Cynllun ar gyfer 2026-2028.

Adran gyntaf y ddogfen hon yw ein trydydd adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. Rydym yn darparu sylwebaeth ar gyflawni'r amcanion a nodir yn ein cynllun yn ystod y cyfnod adrodd. Yn gyffredinol, rydym o'r farn ein bod wedi bod yn effeithiol yn y camau yr ydym wedi'u cymryd tuag at gyflawni'r amcanion hynny ac wrth gyflawni'r Ddyletswydd yn ystod y cyfnod o 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2025.

Yn fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol, gall fy adroddiadau annog newidiadau buddiol sy'n ymwneud â chynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn un o'r pedair thema allweddol sy'n ysgogi ein rhaglen waith archwilio perfformiad. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, gwnaethom gyflwyno nifer o archwiliadau ac astudiaethau a oedd yn ymdrin ag ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau, a darperir mwy o fanylion yn yr adroddiad.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn berchen ar dir nac yn rheoli tir ac felly mae llai o gyfle i gynnal gweithgareddau sy'n cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau na sefydliadau sy'n gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom gynnal ein hachrediad ar lefel uchaf Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Fe wnaethom hefyd adleoli pob un o'n tair swyddfa i adeiladau llai, mwy modern gyda pherfformiad amgylcheddol sylweddol well, a gweithredu cynllun newydd i helpu i leihau effeithiau ein teithio at ddibenion busnes a chymudo.

Ail adran y ddogfen hon yw ein blaengynllun ar gyfer cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n cynnwys amcanion wedi'u diweddaru ar gyfer y cyfnod o 1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2028. Fe wnaethom adolygu ein cynllun blaenorol yng ngoleuni cynnwys yr adroddiad ac rydym wedi ymestyn amserlen y cynllun hyd at y dyddiad adrodd statudol nesaf. Rydym hefyd wedi cydgrynhoi ein hamcanion gyda chamau gweithredu allweddol wedi'u diweddaru.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

# Cyflwyniad a'r cyd-destun

Fe gyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru (y cyfeirir ati'n aml fel y ddyletswydd adran 6). Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau, hyd y bo'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n darparu adnoddau, megis staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflogi oddeutu 300 o aelodau o staff ar hyn o bryd.

Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £28 biliwn o incwm a gwariant. Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o fanylion am yr ystod o gyrff yr ydym yn eu harchwilio, ein trefniadau llywodraethu a sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith archwilio o gymorth i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol.

Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ill dau eu cwmpasu gan y ddyletswydd adran 6 ac mae'n ofynnol inni gyhoeddi cynllun sy'n egluro sut y byddwn yn cyflawni'r ddyletswydd ac adrodd ar y cynnydd a wnaed.

Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio stiwardiaeth ar arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus Cymru ac adrodd ar hynny. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym yn ystyried pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn cael eu rhedeg ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cynnal archwiliadau o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar gyfer rhai cyrff penodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n ymarferol, caiff y gwaith hwn ei integreiddio o fewn ein rhaglen o waith archwilio ehangach.

Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol eu hannog i wneud newidiadau buddiol sy’n ymwneud â chynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru’n berchen ar dir nac yn rheoli tir ac felly mae ganddi lai o gyfle i gyflawni gweithgareddau sy’n cefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau na’r sefydliadau hynny sy’n berchen ar dir ac yn rheoli tir. Fodd bynnag, rydym yn llwyr gydnabod yr angen i leihau i’r eithaf ein heffaith ar yr amgylchedd a gwneud ein rhan i ymdrin â bygythiad newid hinsawdd a’r bygythiadau a achosir i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol.

Adran gyntaf y ddogfen hon yw ein trydydd adroddiad ar gydymffurfio â’r ddyletswydd adran 6 ac mae’n ymdrin â’r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2025. Rydym yn darparu sylwebaeth ar gyflawni’r amcanion a nodwyd yn ein cynllun ar gyfer y cyfnod adrodd. Ar y cyfan, rydym o’r farn ein bod wedi bod yn effeithiol o ran y camau yr ydym wedi’u cymryd tuag at gyflawni’r amcanion hynny ac o ran cyflawni’r ddyletswydd adran 6 dros y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 ac 1 Rhagfyr 2025.


Ail adran y ddogfen hon yw ein blaengynllun ag amcanion wedi’u diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2028. Fe wnaethom adolygu ein cynllun blaenorol yng ngoleuni cynnwys yr adroddiad ac rydym wedi estyn ffrâm amser y cynllun hyd at y terfyn adrodd statudol nesaf. Rydym hefyd wedi cyfnerthu ein hamcanion â chamau gweithredu allweddol wedi’u diweddaru.

# Cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion


## 1. Gwreiddio bioamrywiaeth mewn prosesau cynllunio a phenderfynu mewnol

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2025, roedd ein trefniadau asesu effaith ar gyfer polisïau a phrosesau mewnol newydd neu ddiwygiedig yn cynnwys cwestiynau sgrinio i sicrhau bod sylw dyladwy'n cael ei roi i ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Roedd prosiectau penodol lle rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i effeithiau ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'n cynnwys:



- ein prosiect 'Gweithleoedd y Dyfodol' i resymoli ein hystâd, lle'r oedd ystyriaethau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn feini prawf allweddol y rhoddwyd sgôr iddynt wrth helpu i ddatblygu dull o adnabod swyddfeydd addas ar gyfer y dyfodol.
- datblygu model gweithio hybrid, lle mae mabwysiadu ffyrdd doethach a mwy hyblyg o weithio, a ategir gan ein platfformau TG a digidol, yn lleihau'r angen i staff deithio a'n hôl troed amgylcheddol ar y cyfan;



- datblygu a gweithredu Cynllun Teithio Cynaliadwy a Llawlyfr Teithio a Threuliau, i'n helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio ar gyfer busnes a chymudo, ac ysgogi lefelau uwch o weithgarwch corfforol;



- datblygu a gweithredu Cynllun Lleihau Carbon a chynllun gweithredu cysylltiedig i sicrhau bod ystyriaethau o ran lleihau carbon, fel gydag agweddau eraill ar gynaliadwyedd, yn cael eu gwreiddio ym mhopeth a wnawn.

Bob blwyddyn, fe wnaethom gynnal arolygon staff cyfan i gasglu gwybodaeth ychwanegol am batrymau, anghenion a dewisiadau teithio cyfredol staff. Fe helpodd hyn i oleuo'r penderfyniadau yr oedd angen i ni eu gwneud a'r camau gweithredu yr oedd angen i ni eu cymryd ac fe'n cynorthwyodd i adrodd yn fwy cywir ar ein hôl troed carbon.

Fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi offeryn data rhyngweithiol sy'n galluogi penderfynwyr mewnol i fonitro sut yr ydym wedi perfformio dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, teithio ar gyfer busnes, defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt, a rheoli gwastraff. Cafodd gwaith i baratoi'r offeryn hwn ei oleuo gan ganllawiau diweddaraf Trysorlys EF ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch adrodd ar gynaliadwyedd a'r canllaw ar gyfer adrodd ar sero net yn sector cyhoeddus Cymru.

Trwy gydol y cyfnod adrodd, mae ein gweithgareddau caffael wedi dilyn hierarchaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu, ac ailgylchu cyn prynu'n newydd. Lle y bo'n wir mai prynu yw'r opsiwn dichonadwy, ein dewis lwybr caffael cynaliadwy yw trwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n dilyn Safonau Prynu'r Llywodraeth. Rydym hefyd yn cymhwyso rhestr wirio arfer da i'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd yn well wrth gontractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Yn benodol, mewn perthynas â chaffael offer TG gennym, rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio ynni'n effeithlon ac ailddefnyddio dyfeisiau, ochr yn ochr ag anghenion defnyddwyr.

## 2. Sicrhau y rhoddir sylw perthnasol ac amserol i ymateb cyrff cyhoeddus i'r argyfwng hinsawdd a natur yn ein rhaglen o waith archwilio

Yng ngwanwyn 2023, fe wnaethom adnabod 'Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur' fel un o'r pedair thema allweddol sydd bellach yn tanategu ein blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Yn ystod camau cwmpasu a chynllunio'r holl waith archwilio perfformiad, mae ein prosesau ansawdd yn ei gwneud hi'n ofynnol i dimau archwilio ystyried lle gallai archwiliad penodol fod yn berthnasol i gynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'r ddyletswydd adran 6.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, fe wnaethom waith ar nifer o astudiaethau cenedlaethol a wnaeth ystyried materion sy'n berthnasol i newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Ochr yn ochr ag adolygiad penodol o sut y mae arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn gweithio i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, roedd allbynnau a gyhoeddwyd yn cynnwys:



- Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU – darn o waith ar y cyd rhwng swyddfeydd archwilio cyhoeddus pedair gwlad y DU
- Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag



- Trefniadau i gyrraedd y targed tai fforddiadwy a gwireddu manteision ehangach
- Teithio llesol – adroddiad yn bwrw golwg ar gyflawni amcanion teithio llesol a rheoli cyllid cysylltiedig



- Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
- Diogelu Natur ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol? Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Wrth gynnal astudiaethau unigol, rydym yn rhoi ystyriaeth reolaidd i gyfleoedd ar gamau priodol i wahodd mewnbwn gan gyrff perthnasol, gan gynnwys ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni ddatblygu ein gwaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom gwblhau cyfres o archwiliadau o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe wnaeth y gwaith hwn arwain at ein hadroddiad statudol ar y cyfan a goleuo'r adroddiad hwnnw ym mis Ebrill 2025, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fe wnaeth ein rhaglen o waith archwilio lleol esgor ar nifer o adroddiadau ychwanegol hefyd a oedd yn bwrw golwg ar faterion sy'n arbennig o berthnasol i'r ddyletswydd a 'Cymru Gydnerth' mewn cyrff unigol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio
- Cyngor Sir Penfro – Lleihau Carbon
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Ailgylchu Gwastraff
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Rheoli Gwastraff
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ailgylchu a Rheoli Gwastraff
- Cyngor Sir Gâr – Gwasanaethau Gwastraff

Yng ngwanwyn 2024, fe dynnon ni ar wersi o'n gwaith i ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch papur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd. Ac yn haf 2025, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd ac Amgylchedd y Senedd i ategu ei waith craffu ar Fil newydd yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Roedd Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yn cyfeirio at dystiolaeth o'n hadroddiad diweddar ar y ddyletswydd adran 6.

Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom ymgynghori ynghylch rhifyn nesaf Cod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi rhai disgwyliadau penodol o ran sut y dylai archwilwyr gyflawni'r ddyletswydd wrth wneud eu gwaith.

Hefyd, yn ystod y cyfnod adrodd, mae ein holl dempledi cynllunio a chanllawiau ategol ar gyfer gwaith archwilio perfformiad wedi cael adolygiad sylfaenol fel rhan o ddiweddaru prosesau a gweithdrefnau, wrth inni fynd ati'n ffurfiol i fabwysiadu safonau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Rhoddwyd ystyriaeth i sut y dylai archwilwyr gyflawni'r ddyletswydd fel rhan o'r adolygiad hwnnw, ochr yn ochr â chyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yng nghyd-destun y nod 'Cymru Gydnerth'.

# 3. Lleihau i'r eithaf ein heffaith ar yr amgylchedd a gweithredu i ddiogelu rhywogaethau a datblygu cynefinoedd

Mae peth teithio ar gyfer busnes yn dal i fod yn hanfodol er mwyn i ni allu cyflawni ein swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill yn effeithiol. Dros y cyfnod rhwng 2023 a 2025, fe wnaeth staff Archwilio Cymru fynychu ein swyddfeydd a safleoedd cyrff a archwilir yn fwy rheolaidd nag yn flaenorol yn y cyfnod ar ôl COVID, fel rhan o newid i fodel gweithio hybrid optimaidd ar gyfer y sefydliad.

Mae ein Llawlyfr Teithio a Threuliau, a ddiweddarwyd yn ystod y cyfnod adrodd, yn seiliedig ar set o egwyddorion teithio cynaliadwy i oleuo prosesau penderfynu sy'n gysylltiedig â theithio ar gyfer busnes. Ym mis Hydref 2023, fe gyhoeddom ni Gynllun Teithio Cynaliadwy newydd i helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio ar gyfer busnes a chymudo ac ysgogi lefelau uwch o weithgarwch corfforol er budd i iechyd a llesiant.

Yn ystod 2023-2025, cynigiwyd y cyfle i'r holl staff gyfranogi mewn cynllun beicio i'r gwaith a chynllun aberthu cyflog ar gyfer lesio i roi anogaeth i ddefnyddio cerbydau trydan a hybrid, ochr yn ochr â chael eu cyfeirio at gymhellion ac adnoddau eraill i hybu teithio llesol. Mae gan leoliadau ein holl swyddfeydd bellach orsafoedd gwefru cerbydau trydan, cyfleusterau beiciau a chawodydd.

Dros y cyfnod adrodd, fe wnaethom adleoli pob un o'n tair swyddfa i safleoedd llai, mwy modern â pherfformiad amgylcheddol gwell o lawer:





- ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom adleoli ein pencadlys yng Nghaerdydd i safle llai yn agos iawn at ddwy brif orsaf drenau a llwybrau beicio a cherdded heb draffig;
- ym mis Medi 2023, fe wnaethom adleoli ein swyddfa yng Ngogledd Cymru i safle llai a rennir, a chanddo ôl troed amgylcheddol a chyfleusterau gwell;
- ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom adleoli ein swyddfa yng Ngorllewin Cymru i safle llai a rennir, a chanddo hefyd ôl troed amgylcheddol a chyfleusterau gwell.

Fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25, gellir gweld effaith y symudiadau hyn trwy ostyngiad o 58% mewn allyriadau carbon a briodolir i ddefnyddio ynni a defnyddio adnoddau naturiol ar draws ein hystâd o'i gymharu â 2022-23.

Bob tro wrth adleoli ein swyddfeydd, fe ddewisom ni ailddefnyddio'r holl ddodrefn ac offer a oedd gennym dros ben yn hytrach na'u cyflwyno i'r ffrwd wastraff. Rhoddwyd eitemau i fwy na 15 o sefydliadau elusennol, cymunedol ac yn y sector cyhoeddus sy'n cefnogi'r gymuned leol. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i ddefnyddio cynlluniau ailddefnyddio i leihau ein defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt, a'r gyfran o'n gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithleoedd wahanu deunyddiau ailgylchadwy. Lleolwyd biniau ailgylchu newydd yn ein swyddfeydd i gasglu eitemau ar gyfer y ffrydiau gwastraff ar wahân fel sy'n ofynnol a dwyn gwelliant pellach i'n prosesau ar gyfer casglu a gwahanu gwastraff.

Mae ein defnydd o blastigau defnydd untro ar gyfer defnyddwyr bellach yn isel iawn, ac ar gyfer nifer o nwyddau a ddanfonwyd yn 2024-25 fe ddewisom ni beidio â chael deunydd pacio o gwbl. Mae ein holl staff yn defnyddio gliniaduron a ffonau clyfar sy'n lleihau'r angen i argraffu papurau cyfarfodydd. Rydym bellach yn annog pobl yn gyffredinol i beidio ag argraffu papurau cyfarfodydd ac eithrio lle y bo'n hanfodol, er enghraifft oherwydd addasiad rhesymol ar gyfer anabledd.

Yn 2025, fe gynhaliodd Archwilio Cymru fenter strategol i archwilio'r defnydd posibl o offer AI cynhyrchiol i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant, cydweithio, a hyder digidol ar draws y sefydliad. Fe wnaeth y prosiect ennyn ymgysylltiad carfan amrywiol o gydweithwyr mewn peilot strwythuredig i brofi galluoedd Microsoft Copilot 365 mewn cyd-destunau archwilio a chorfforaethol. Fel rhan o'r fenter hon, fe wnaethom gymhwyso canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru i amcangyfrif yr allyriadau o'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â'n defnydd o AI.

# 4. Sicrhau bod llywodraethu ar gyfer bioamrywiaeth yn Archwilio Cymru'n darparu capasiti ac arbenigedd, gan wneud y gorau o graffu ac achredu allanol

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2025 fe wnaethom gynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (y lefel uchaf) Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Cwblhawyd yr archwiliad allanol Draig Werdd diweddaraf ym mis Mehefin 2025.

Fe wnaethom hefyd sefydlu Gweithgor Lleihau Carbon mewnol a chysylltiadau rhwydweithio allanol, i helpu i oleuo ein gwaith cynllunio ar gyfer cyfrannu at nodau carbon sero net tymor hwy Cymru.

Yn 2024, fe gyhoeddom ni ein Cynllun Lleihau Carbon, yr ailedrychwyd arno ac a adolygwyd yn 2025. Mae'r cynllun yn disgrifio pum nod sy'n cwmpasu ein ffin allyriadau, diwylliant, a chydgyfrifoldeb. Caiff y cynllun a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig eu hystyried bob chwe mis fel rhan o'n trefniadau llywodraethu gweithredol. Cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol o'r Cynllun a'n dull ym mis Awst 2025. Darparodd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd rhesymol ac fe'i hystyriwyd gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fe amlygodd yr adroddiad nifer o feysydd lle ceir arfer da ac fe nododd rai argymhellion defnyddiol ar gyfer gwelliant pellach.

Rydym yn monitro ac yn mesur ein perfformiad yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol corfforaethol a thargedau safonau amgylcheddol, yn ogystal â thargedau trwy'r Cynllun Lleihau Carbon, y Cynllun Teithio a Chynlluniau Bioamrywiaeth.

Mae Archwilio Cymru'n adrodd trwy ganllawiau Sero Net Llywodraeth Cymru yn flynyddol ac mae ganddo'r gallu i feincnodi yn erbyn cyrff tebyg eraill yn y sector cyhoeddus, trwy offeryn adrodd rhyngweithiol newydd.

# Ffocws ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol

Rydym wedi pennu tri amcan lefel uchel, gyda chamau gweithredu allweddol cysylltiedig, i'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd Adran 6 dros y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2028.

Paratowyd ein hamcanion a'n camau gweithredu gan fwrw golwg ar y dogfennau allweddol canlynol:





- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol diweddaraf;
- y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, sy'n disgrifio amcanion sydd wedi'u bwriadu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru;
- y rhestrau adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf i Gymru;
- y Datganiadau Ardal sy'n amlinellu heriau allweddol sy'n wynebu ardaloedd penodol ledled Cymru.

Dros y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2028, byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn, adrodd arno a myfyrio yn ei gylch. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau mewnol bob hyn a hyn i'n Tîm Arwain Gweithredol a'n Bwrdd.

Dylid nodi hefyd ein bod yn monitro hynt Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Pe bai'n cael ei phasio, byddai'r ddeddfwriaeth yn sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol yn ystod cyfnod y Cynllun hwn: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Gwneir darpariaeth yn y Bil i wneud Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd allanol statudol Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Byddai hefyd yn ofynnol i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru baratoi strategaeth sydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi sut y mae Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn bwriadu osgoi bod â swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd â swyddogaethau awdurdodau goruchwylio eraill Cymru, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol.

## 1. Sicrhau y rhoddir sylw perthnasol ac amserol yn ein rhaglen o waith archwilio i ymateb cyrff cyhoeddus i'r argyfwng hinsawdd a natur

### Pam fod hyn yn bwysig:

- ystyrir bod rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn ddylanwadol o ran newid polisïau ac arferion cyrff cyhoeddus;
- trwy ein gwaith, rydym yn awyddus i wneud ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a ddatganwyd yng Nghymru.

### Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflawni'r amcan hwn:

- rhoi ystyriaeth ddyladwy i ddogfennau allweddol a restrir yn y cyflwyniad i'r adran hon wrth gynllunio a datblygu ein blaenraglen waith;
- sicrhau bod archwilwyr yn llwyr ymwybodol o'r disgwyliadau a nodir yng Nghod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a chanllawiau ategol ynghylch sut y dylai archwilwyr gyflawni'r ddyletswydd adran 6 wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith;
- ystyried barn sefydliadau â buddiant mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru wrth:
  - ystyried cynnwys ein blaenraglen waith;
  - pennu'r dull a fydd yn cael ei fabwysiadu mewn gwaith archwilio sy'n arbennig o berthnasol i'r ddyletswydd adran 6;
  - gwerthuso effaith darnau o waith o'r fath;
- ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel eu bod yn gallu cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru Gydnerth', trwy eu gwaith i bennu amcanion llesiant a'r camau y maent yn eu cymryd i'w cyflawni;
- sicrhau ein bod yn cadw golwg ar gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i argymhellion archwilio perthnasol;
- aros yn effro i gyfleoedd i rannu gwersi archwilio ar faterion sy'n berthnasol i'r ddyletswydd adran 6 gyda chynulleidfaoedd ehangach, gan gynnwys i oleuo datblygiad polisi a gwaith craffu;
- mynd ati'n rhagweithiol i fonitro unrhyw newidiadau sydd ar ddod i safonau a chanllawiau archwilio a datblygiadau ym maes adrodd ar gynaliadwyedd, fel ein bod yn gallu gwerthuso unrhyw oblygiadau ar gyfer Archwilio Cymru ac ymateb yn briodol.

## 2. Gwreiddio ystyriaethau i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu mewnol

### Pam fod hyn yn bwysig:

- mae'n grymuso ac yn cymell cydweithwyr i ystyried ein heffaith ar yr amgylchedd naturiol a chymryd cyfrifoldeb amdani;
- rydym yn dyheu am fod yn batrwm o sefydliad i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt.

### Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflawni'r amcan hwn:

- aseinio nawdd ar lefel weithredol i'r Cynllun hwn gydag aelod cyswllt o'r Bwrdd i graffu a rhoi cymorth mewn cymhwyster an-Weithredol;
- rhoi sylw cyson i ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, lleihau carbon a bioamrywiaeth fel rhan o'n trefniadau i asesu effaith debygol strategaethau, polisïau ac arferion mewnol (yn rhai diwygiedig neu newydd);
- monitro cynnydd o ran cyflawni'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn trwy ein trefniadau ar gyfer llywodraethu gweithredol a goruchwyliaeth gan y Bwrdd;
- ceisio archwiliad ac achrediad trydydd parti o bryd i'w gilydd ar gyfer ein system rheoli amgylcheddol i sicrhau her a chymorth parhaus ar gyfer ein hymrwymiad i wella'n barhaus;
- wrth gaffael gwasanaethau:
  - cynnwys gofynion sy'n berthnasol i gyflawni'r ddyletswydd yn ein meini prawf dyfarnu tendrau;
  - cydymffurfio â'r ddyletswydd wrth nodi'r safonau perfformiad a fydd yn cael eu cynnwys mewn contractau, lle y bo'n berthnasol;
  - gweithio gyda chyflenwyr i wneud gwelliannau i ychwanegu gwerth cymdeithasol a lleihau gwastraff ac allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy gynhyrchu a/neu deithio;
- gwella cynnwys ein dangosfwrdd gwybodaeth reoli mewnol sy'n darparu manylion a chyd-destun i benderfynwyr am berfformiad yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol megis allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt a rheoli gwastraff.

# 3. Cymryd camau priodol i fonitro ein heffeithiau ar yr amgylchedd, eu lleihau i'r eithaf a chodi ymwybyddiaeth ohonynt

## Pam fod hyn yn bwysig:

- fel sefydliad sy'n gweithredu ledled Cymru gyfan mae'n hollbwysig ein bod yn cymryd camau i fonitro, rheoli a lleihau i'r eithaf ein heffaith ar yr amgylchedd;
- fel cyflogwr sydd ag oddeutu 300 o aelodau o staff, gallwn gyflawni rôl allweddol o ran codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am ffyrdd y gallwn ni i gyd wneud ein rhan i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

## Camau gweithredu allweddol ar gyfer cyflawni'r amcan hwn:

- cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Lleihau Carbon, sy'n cynnwys monitro a lleihau:
  - allyriadau nwyon tŷ gwydr y gellir eu priodoli i gymudo a theithio ar gyfer busnes, ochr yn ochr ag annog pobl i ddefnyddio opsiynau mwy cynaliadwy i deithio ar gyfer busnes a chymudo;
  - ein defnydd o drydan, tanwydd, papur a dŵr;
  - y gwastraff yr ydym yn ei gynhyrchu yn ein swyddfeydd, ochr yn ochr â chynyddu i'r eithaf y gyfran o'r gwastraff hwnnw a ailddefnyddir neu a ailgylchir;
  - allyriadau o'r gadwyn gyflenwi sy'n cyfateb i $CO_2$ y gellir eu priodoli i nwyddau a gwasanaethau;
- gwella cynnwys ein hofferyn data rhyngweithiol sy'n darparu manylion ar gyfer rhanddeiliaid allanol am berfformiad yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol megis allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt a rheoli gwastraff;
- sicrhau bod ein methodoleg adrodd yn cyd-fynd â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a chadw golwg ar unrhyw ddatblygiadau cyfreithiol a pholisi pellach yn y maes hwn;
- mynd ati o bryd i'w gilydd i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i staff ar y ddyletswydd adran 6 a materion bioamrywiaeth a chynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â gwaith gan gynnwys, er enghraifft, yr effeithiau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio cymwysiadau AI;

- cefnogi gwaith ein grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol ar godi ymwybyddiaeth am ffyrdd y gallwn ni i gyd wneud ein rhan i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur a gwella bioamrywiaeth;
- archwilio opsiynau megis cefnogi cynlluniau plannu coed brodorol, adfer mawndiroedd a chynlluniau tebyg y gallem eu defnyddio i helpu i wella gweithgarwch adfer cynefinoedd yng Nghymru a mynd ati o leiaf yn rhannol i wrthbwyso ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr na ellir eu hosgoi;
- yn amodol ar ofynion gweithredol, cefnogi cyflogeion sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, cymunedol neu elusennol cysylltiedig.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.